# Cornel y Beirdd

*Eira*

Mae'n arwisgo mewn oer wasgod – lwyni
Eto leni'n hynod;
Gwych ei hedd a'i rhyfeddod,
A rhyw awr fer yw ei fod.

*Murddun*

Yn ddi-do ac yn ddi-dân – adfeilion
Aelwyd foel ym mhobman;
Eco brwnt sydd yng nghrawc brân,
A'r gwynt yn treiddio'r gwantan.

*Y Dderwen*

Ar fryn hon, yw'r frenhines, – i'r eiddil
Mae'n rhoddi gwir loches,
Mor wargam yw mam y mes,
Rhown goron i'r hen gawres.

*Hen Ddresel Gymreig*

Mae hi'n ddarn o gadarn goeden, – ni chewch
Yn ei chorff 'run hoelen;
A hen gŵyr sy'n dal ei gwên
Dan blatiau lliwiau llawen.

*Ffenestr Hen Ffatri Wag*

Oni welwch hi'n wylo, – a hithau'n
Ddi-waith yn dadfeilio;
Hen wasgod lwch mae'n wisgo,
Un o liw sy'n friw'n y fro.

*Hen Grud*

Un annwyl ynddo a wenodd – dau gariad
A'u geiriau a'i siglodd;
Yn aml hwn a deimlodd
Yn y man, gariad 'run modd.

*Hen Longwr*

Brau yw edau ei rwydi – a'r celfi
O'r culfor yn crogi;
Ond pan ddaw'r môr i'w stori
Daw'r hen gwch o'r llwch i'r lli.

*Saer Maen*

Priodi meini â manwaith – a dwylo
Yn dilyn y grefftwaith;
Muriau moel am erwau maith,
Di-gwymp ydyw ei gampwaith.

*Yr Hen Dramp*

Y corpws yn y carpiau – yn llwydaidd
Fel lledr ei 'sgidiau,
A stôr ei holl drysorau
Mewn hen gwd y mynn ei gau.

*Y Maharen*

Brenin mawnog y bryniau – o'i gychwyn
Fe gochodd y llwybrau;
Heriwr brwd mewn rhandir brau,
A deugorn yn fidogau.


*Clod*

Y mae hwn fesul munud – yn naddu
Blynyddoedd ein bywyd;
Mesura boen amser byd
Ac oriau'r hafau hefyd.

DAFYDD MORRIS, BETHESDA

# ADOLYGIADAU

***WALES Clocks and Clockmakers*, William Linnard, Mayfield Books, £30**




Mae'r cyfeirlyfr newydd, cynhwysfawr hwn yn ymdrin â chlociau Cymreig drwy'r oesoedd. Cyfeirir yn y llyfr at glocdyrau mewn eglwysi cadeiriol ac eglwysi yng Nghymru, y cofnodion cynharaf o glociau yn y cartref yng Nghymru; a rhestr o glocwyr Cymreig.

Ceir disgrifiadau llawn o glociau hir gyda wyneb-pres a wynebau wedi'u paentio, a'r addurniadau nodweddiadol Gymreig ar y wynebau a'r cas. Mae yma restr gynhwysfawr yn nhrefn y wyddor yn rhoi manylion am dros 2,000 o wneuthurwyr clociau Cymreig a'u clociau, ac mae'r mynegai daearyddol a thestunol o gymorth i ymchwilio a chroes gyfeirio. Mae'r llyfr yn cynnwys 240 o luniau.

Dyma'r llyfr cyntaf ar glociau a chlocwyr o Gymru ers chwarter canrif, ac ynddo ceir yr ymchwil diweddaraf un, sydd heb gael ei gyhoeddi o'r blaen. Am flynyddoedd lawer gweithiai yr awdur Dr. Williams Linnard, yn Amgueddfa Werin Cymru, cartref y casgliad Cenedlaethol o glociau a watsys. Bu dau o'i hynafiaid yn glocwyr o fri yn Abertawe yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ar hyn o bryd, Dr. Linnard yw Cadeirydd y Gymdeithas Horolegol yng Nghymru a'r Gororau. Mae ei ymchwiliadau, ei gyhoeddiadau, a'i ddarlithoedd yn ymdrin â gwahanol agweddau o Hanes Cymru, ac yn cynnwys cyfraniadau i'r cylchgrawn Clocks' Antiquarian Horology, a'i lyfr diweddar ar Cardiff Clocks (1999). Ar gael gan yr awdur ar 02920 843 200.

* * *

***Atgof a Cherdd*, J.R. Jones, 144tt. Y Lolfa £5.95**

Yn y llyfr *Atgof a Cherdd*, ceir llu o hanesion hynod ddifyr am hanes y canolbarth a'i chymeriadau a llu o straeon cofiadwy o'i blentyndod yn Nhaliesin a Wern-deg, ei brofiadau yng nghapel Bethel, ei yrfa gyda'r Cyngor Llyfrau, a'i atgofion o'r byd eisteddfodol.

Ceir hanesion difyr a doniol am r… gymeriadau'r ardal fel y Parch. Fred Jones, ac ambell un llai adnabyddus fel Dic y Lein a John bach Bont-goch, straeon am ddosbarthiadau barddoni Gwenallt yn Rhydypennau ac Euros Bowen yng Nghwm Llinau, a nifer o atgofion am y byd eisteddfodol, o feirniadu mewn eisteddfodau lleol i'w brofiad yn arwain yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Difyr hefyd yw ei atgof fel dynwaredwr poblogaidd.

Daw'r gyfrol hefyd â chipolwg ar y newid a fu yn y byd amaeth a chefn gwlad yn gyffredinol – atega yr hyn a ddangosodd yn ei farddoniaeth, sef ei gariad at ei fro a'i phobl.

Yn ogystal â'r atgofion eu hunain, cynhwyswyd amryw o gerddi J.R. na chyhoeddwyd o'r blaen. Ceir hefyd gyflwyniad a theyrnged clodwiw i'w fywyd gan Alun Creunant Davies.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Garmon Gruffudd yn Y Lolfa.

* * *

***Y Blew a Buddugoliaeth Gwynfor*, Dafydd Evans 207 tt, Y Lolfa £12.95**

Ar nos Lun y Steddfod, cynhaliwyd noson arbennig i lansio *Y Blew a Buddugoliaeth Gwynfor*, hanes difyr Dafydd Evans, mab i Gwynfor Evans ac un o gerddorion mwyaf blaenllaw Cymru yn y 60au. Cafwyd darlleniadau o'r llyfr ac fe ddaeth Dafydd i'r llwyfan i berfformio 'Maes B' gan y Blew, a chaneuon eraill o'r 60au gyda'r grŵp o Dalybont, Dafydd Saer a'r Wiwerod Rhyw o Uffern.

Am y tro cyntaf, dyma hanes y grŵp roc proffesiynol cyntaf i ganu yn yr iaith Gymraeg. Pigion o ddyddiaduron a gadwyd gan Dafydd rhwng 1954 a 1967 yw cnewyllyn y gyfrol, a chawn hanes gweledigaeth wleidyddol Gwynfor wrth i Blaid Cymru gipio'i sedd gyntaf yn San Steffan. Cawn gwmni efengylwyr, Cocnis, gwladgarwyr, sêr pop a chariadon lu ar y daith!

Mae'r dyddiadur yn gwibio'n chwim rhwng direidi'r ysgol a'r coleg— hanesion sy'n amrywio o'r coch a'r dichwaeth i'r ysbrydol a'r dwys.

Gan gynnwys toreth o luniau deniadol a thrawiadol o'r cyfnod oddi mewn, dyma gyfrol i apelio at y sawl oedd yno ar y pryd, a'r rheiny sydd yn rhy ifanc i gofio.

Mae ar werth mewn siopau llyfrau ledled Cymru a gellir ei brynu ar wefan Y Lolfa – www.ylolfa.com.

* * *

***Dyddiaduron India*, R. Gerallt Jones, 144tt, Y Lolfa £6.95**

Dyddiaduron 1984 ac 1987 sydd yn y gyfrol, sef dyddiaduron a gadwodd R Gerallt Jones fel math o ddolen gyswllt tra roedd yn teithio. Ond mae'r dyddiaduron lawer mwy na chofnod o fywyd y wlad – ceir sylwebaeth bersonol, straeon difyr a phortreadau penigamp gan roi cipolwg ar wareiddiad cyfoes mewn argyfwng.

Yn nhyb Ann Ffrancon, a fu'n gydweithiwr â Gerallt, 'Mae'r cyfan wedi ei bortreadu mewn dull difyr a chryno, ac wedi ei seilio ar gyfuniad o argraffiadau sylwgar, ffeithiau cynnil a sylwebaeth werthfawr.' Ceir llu o luniau a mapiau yn y gyfrol ynghyd â chyflwyniad sy'n deyrnged gwbl haeddiannol i un o gyfranwyr mawr y …yd llenyddol a dyngarol yng Nghymru.